RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

101/2023

DYDDIAD CYHOEDDI:

31/10/2023

# Adolygiad o Sail Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru

## Adroddiad Cam 1

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83504-943-3

Teitl: Adolygiad o Sail Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru
Is-deitl: Adroddiad Cam 1

Adroddiad gan:

alma economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2023). *Adolygiad o Sail Dystiolaeth y Sector Diwylliant yng Nghymru - Adroddiad Cam 1*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 101/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-sail-dystiolaeth-y-sector-diwylliant-yng-nghymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag:

Is-adran Ddiwylliant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: diwylliantchwaraeon@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2
2. Methodoleg ..... 4
3. Canfyddiadau ..... 9
4. Casgliad o Gam 1 ..... 14
5. Argymhellion ar gyfer Cam 2 ..... 16
6. Atodiad: Ffynonellau data a thystiolaeth ..... 18

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cytundeb Cydweithredu[1] a'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru[2] wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar gefnogi a datblygu sectorau'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth, gan gynnwys rôl diwylliant wrth hybu iechyd a llesiant cadarnhaol, dysgu gydol oes a sgiliau, cefnogi datblygiadau digidol yng Nghymru, yr economi ymwelwyr, a'r iaith Gymraeg, ynghyd ag adeiladu cydnerthedd i alluogi adferiad effeithiol o'r pandemig Covid-19 a chyflawni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[3].

1.2 Er mwyn datblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru, mae'n bwysig bod llunwyr polisi a rhanddeiliaid yn gallu cael gafael ar ddata ar faint, cyfansoddiad ac effaith y sector diwylliant. I gefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Alma Economics i adolygu a mapio argaeledd data a thystiolaeth am y sector diwylliant yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys nodi ac asesu ffynonellau presennol a bylchau tystiolaeth mewn gwybodaeth ar draws meysydd diwylliannol o ddiddordeb gan gynnwys Amgueddfeydd, y Celfyddydau, Llyfrgelloedd, Archifau a Threftadaeth.

1.3 Strwythurir yr adolygiad hwn ar draws dau gam. Mae cam cyntaf y gwaith ('Cam 1') yn cynnwys ymarfer cwmpasu i nodi ffynonellau data perthnasol a chynnal adolygiad cychwynnol o ddata presennol. Yn ogystal, bydd rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynnwys yn ystod y cam hwn i bennu'r pynciau sylfaenol a'r cwestiynau ymchwil i'w harchwilio yn ystod cam dilynol y gwaith ('Cam 2'). Bydd Cam 2 yn anelu at fapio'r holl ddata a ffynonellau tystiolaeth a nodwyd yn erbyn y prif bynciau a chwestiynau ymchwil a bennwyd yng Ngham 1. Yn ogystal, bydd adroddiad ystadegol manwl yn cael ei gynhyrchu, yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r pum is-sector diwylliant yn seiliedig ar y data sydd ar gael.

[1] Y Cytundeb Cydweithio | LLYW.CYMRU
[2] Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU
[3] Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU

1.4 Ar ôl cwblhau cam cyntaf yr ymchwil, mae’r adroddiad hwn yn manylu ar ganfyddiadau Cam 1 ac yn nodi’r cwestiynau ymchwil a argymhellir a’r cwmpas i fynd i’r afael ag ef yng Ngham 2.

1.5 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Adran 2** yn manylu ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer Cam 1 yr ymchwil.
- Mae **Adran 3** yn crynhoi canfyddiadau Cam 1.
- Mae **Adran 4** yn rhoi casgliadau allweddol o'r canfyddiadau.
- Mae **Adran 5** yn amlinellu argymhellion ar gyfer cwmpas Cam 2.
- Mae **Adran 6** yn atodiad ac yn cynnwys rhestr o ffynonellau data ychwanegol a thystiolaeth ar y sector diwylliant a adnabuwyd yng Ngham 1.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae’r adran hon yn crynhoi’r dull a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 yr adolygiad tystiolaeth. Cytunwyd ar y dull hwn gyda Llywodraeth Cymru ar ddechrau’r prosiect ac mae’n defnyddio dull dulliau cymysg. O ystyried y diffyg cwestiynau ymchwil ar gyfer Cam 1, ymgysylltwyd â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol drwy gydol y broses i fireinio cyfeiriad dadansoddiad Cam 1 a’r cwmpas posibl ar gyfer Cam 2. Mae’r camau a ganlyn yn amlinellu’r dull a ddefnyddiwyd.

**Cam cwmpasu**

2.2 Cynhaliwyd cam cwmpasu cychwynnol i ddarparu dealltwriaeth gyd-destunol bellach o'r sector diwylliant yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennau polisi presennol i ddeall cwmpas yr is-sectorau dan sylw a nodi pynciau o ddiddordeb cychwynnol. Yn ystod y cam cwmpasu, darparwyd map data cychwynnol o ffynonellau presennol yn ymwneud â’r sector diwylliant gan Lywodraeth Cymru. Roedd hwn yn fan cychwyn ar gyfer ymchwil i'r ffynonellau tystiolaeth oedd ar gael.

**Cyfweliadau cwmpasu**

2.3 Cynhaliwyd cyfanswm o wyth cyfweliad cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddarparu dealltwriaeth gychwynnol o argaeledd a defnydd ffynonellau data o safbwynt polisi. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn ag aelodau o Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru a Cadw ac roeddent yn ymdrin â'r meysydd polisi a ganlyn: Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru; Amgueddfeydd a Chasgliadau; Llyfrgelloedd ac Archifau; Digidol; Yr Amgylchedd a Threftadaeth Hanesyddol (Cadw); y Celfyddydau.

2.4 Roedd y cyfweliadau yn lled-strwythuredig ac yn cwmpasu'r meysydd trafod canlynol gyda chyfranogwyr:

- **Blaenoriaethau polisi allweddol a gwmpesir gan y maes polisi priodol**. Defnyddiwyd hwn i gael dealltwriaeth o’r mathau o gwestiynau ymchwil y gallai pob maes polisi fod â diddordeb ynddynt ac a oes unrhyw fylchau rhwng y cwestiynau ymchwil hyn ac argaeledd tystiolaeth a data.

- **Y mathau o ffynonellau data a ddefnyddir gan lunwyr polisi mewn perthynas â'r sector diwylliant, os o gwbl**. Helpodd hyn i nodi ffynonellau data ychwanegol a'r rhai a allai fod yn fwy o flaenoriaeth i lunwyr polisi.
- **Bylchau data allweddol a chyfyngiadau yn eu maes polisi**. Defnyddiwyd hwn i gefnogi'r gwaith o nodi bylchau tystiolaeth allweddol a chyfyngiadau ffynonellau presennol.

2.5 Caniataodd y cyfweliadau cwmpasu i ni nodi ffynonellau data, a defnyddiwyd dull 'pelen eira' i gefnogi'r dadansoddiad. Galluogodd hefyd ddealltwriaeth o'r cwestiynau ymchwil posibl a'r blaenoriaethau data ar gyfer pob maes polisi o fewn y sector diwylliant, a fydd yn y pen draw yn llywio ffocws Cam 2.

**Cyfweliadau â rhanddeiliaid allanol**

2.6 Trefnwyd pedwar cyfweliad ychwanegol gyda rhanddeiliaid allanol i roi cyd-destun pellach i weithgareddau casglu data eu sefydliadau priodol. Rhoddwyd Hysbysiad Preifatrwydd dwyieithog i bawb a gymerodd ran yn y cyfweliad a gofynnwyd am ganiatâd gwybodus ar ddechrau'r cyfweliad. Cytunwyd ar sgriptiau cyfweliad a oedd yn strwythuro'r cyfweliadau gyda Llywodraeth Cymru.

2.7 Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddeall sut mae sefydliadau'r cyfranogwyr yn defnyddio a chasglu data, er mwyn nodi a ellid mynd i'r afael ag unrhyw un o'r bylchau data a nodwyd yn y cyfweliadau cwmpasu gyda'r gweithgareddau casglu data presennol. Fel gyda'r cyfweliadau cwmpasu, trafodwyd y defnydd o ddata a chwestiynau ymchwil allweddol gyda chyfranogwyr i nodi ffynonellau data ychwanegol a bylchau. Trafodwyd rhai o'r blaenoriaethau polisi a godwyd yn y cyfweliadau cwmpasu hefyd gyda rhanddeiliaid allanol i nodi a allai data a gedwir gan sefydliadau priodol gefnogi llunio polisïau.

**Nodi ffynonellau data a strategaeth chwilio**

2.8 Yn ogystal â'r ffynonellau data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, nodwyd ffynonellau data ychwanegol drwy weithredu strategaeth chwilio. Roedd y strategaeth chwilio yn seiliedig ar y protocol canlynol sy'n canolbwyntio ar nodi ffynonellau data meintiol ac ansoddol ar y sector diwylliant yng Nghymru. Yn ymarferol, roedd y chwiliad yn ailadroddol o ystyried y wybodaeth a

ddysgwyd drwy'r cyfweliadau, yn enwedig mewn perthynas â blaenoriaethau polisi ac ymchwil.

2.9 **Adolygiad o setiau data ac ystadegau cenedlaethol**: Roedd y ffrwd gyntaf yn cynnwys sgrinio setiau data cenedlaethol a gyhoeddir gan sefydliadau sy'n gyfrifol am gasglu, cydgrynhoi neu gyhoeddi data ac ystadegau yng Nghymru a'r DU. Roedd ein hadolygiad yn cynnwys yr 'Ystadegau ac ymchwil' a ddarparwyd gan llyw.cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru, StatsCymru, Data Cymru, Gwasanaeth Data'r DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), Sectorau Amcangyfrifon Economaidd DCMS a Deall Cymdeithas (Astudiaeth Hydredol Aelwydydd y DU).

2.10 Roedd allweddeiriau chwilio yn cynnwys y pum is-sector o ddiddordeb (amgueddfeydd, y celfyddydau, llyfrgelloedd, archifau a threftadaeth), ond gwnaethom ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd, gan nad oedd y ffiniau â sectorau cysylltiedig eraill wedi'u diffinio'n glir nac yn gyson. Er enghraifft, mae data ar y sector twristiaeth yn aml yn rhoi cipolwg ar ymwelwyr ag amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth neu leoliadau celfyddydol. Roedd y dull chwilio ar gyfer ystadegau SYG a DCMS yn cynnwys sgrinio'r setiau data allweddol (e.e., busnesau, GYC, cyflogaeth) i wirio a yw data'n cael ei ddadansoddi ar lefel ranbarthol – er mwyn cynnwys Cymru – ac i ddau ddigid cyntaf dosbarthiad diwydiant y sector, sef Codau 'SIC' (y ddau deulu o godau SIC o ddiddordeb yw '90 – Gweithgareddau creadigol, celfyddydol ac adloniant' a '91 – Llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a gweithgareddau diwylliannol eraill').

2.11 **Adolygu tystiolaeth gan sefydliadau**: Yn ail ffrwd y strategaeth chwilio, buom yn archwilio gwefannau sefydliadau allweddol yn sectorau diwylliant Cymru, gan sgrinio perthnasedd eu cyhoeddiadau ymchwil. Roedd y sefydliadau a gynhwyswyd gennym yn y chwiliad yn cynnwys y canlynol:

- **Amgueddfeydd:** Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru a Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol.
- **Y Celfyddydau**: Cyngor Celfyddydau Cymru a Chymru Greadigol. Er nad yw Cymru Greadigol wedi'i chynnwys yn Strategaeth Ddiwylliant Newydd Cymru, cydnabyddir y gallai fod rhywfaint o dystiolaeth gan Gymru Greadigol sy'n

berthnasol i'r strategaeth ac felly cafodd ei chynnwys yn y chwiliad. Dim ond tystiolaeth sy'n berthnasol i'r strategaeth fydd yn cael ei chynnwys.

- **Llyfrgelloedd**: Llyfrgell Genedlaethol Cymru a CILIP (cymdeithas llyfrgelloedd a gwybodaeth y DU).
- **Archifau**: Archifau Cymru a'r Gymdeithas Archifau a Chofnodion (ARA)
- **Treftadaeth**: Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chronfa Dreftadaeth a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

2.12 **Chwiliad cyffredinol am dystiolaeth**: Yn olaf, gwnaethom gyfres o chwiliadau gan ddefnyddio peiriannau chwilio i nodi data a thystiolaeth arall sydd ar gael nas cynhwyswyd yn y ddwy ffrwd chwilio flaenorol. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfuniadau o eiriau allweddol a ddefnyddiwyd i redeg y chwiliadau. Rhoddwyd pob cyfuniad o eiriau allweddol yn y pedwar categori yn y peiriant chwilio a chafodd y prif ganlyniadau eu sgrinio â llaw.

| Geiriau allweddol | Termau chwilio |
|---|---|
| **Gair allweddol 1 – Prif feysydd** | museums, arts, libraries, archives, heritage |
| **Gair allweddol 2 – Prif destunau** | visitors, attendance, audience, users,engagement, participation, industry, sector, organisations, enterprises,workforce, skills, employees |
| **Gair allweddol 3 – Targed ymchwil** | data, report, research, survey, questionnaire, study, statistics, review, findings, publications |
| **Gair allweddol 4 – Sgôp cyffredinol** | Wales, UK |

2.13 Hidlwyd y dystiolaeth a nodwyd drwy’r cyfweliadau a’r tair strategaeth chwilio yn unol â dau brif ddimensiwn ein meini prawf cynnwys/eithrio:

- **Darparu data sylfaenol**. Nod ein chwiliad cwmpasu oedd casglu ffynonellau tystiolaeth sy’n darparu gwybodaeth newydd am y sector diwylliant yng

Nghymru, a gasglwyd oddi wrth (neu am) y sefydliadau a'r gweithwyr yn y sector a'u hymwelwyr, defnyddwyr a chynulleidfaoedd. Felly, fe wnaethom eithrio pob cyhoeddiad nad oedd yn cynnwys casglu data sylfaenol neu gronni data a fyddai fel arall yn anhygyrch. Roedd hyn yn cynnwys adroddiadau ansoddol; cyhoeddiadau ymchwil a ddadansoddodd setiau data presennol yn hytrach na darparu gwybodaeth newydd; ac adroddiadau y gellid eu cyrchu trwy wal dâl yn unig (fodd bynnag, cynhwyswyd rhai ffynonellau y talwyd amdanynt yn fyr yn y canfyddiadau, pan y cawsant eu darparu gan Lywodraeth Cymru).

- **Cwmpas daearyddol**. Cyfyngwyd ein cwmpas daearyddol i Gymru. Fodd bynnag, gwnaethom gynnwys rhai ffynonellau ar gyfer y DU gyfan a allai gynnwys casglu data sy'n benodol i Gymru (hyd yn oed os nad o reidrwydd yn adrodd i'r lefel hon), y gellir felly eu dadgyfuno.

**Adolygu ac asesu ffynonellau data**

2.14 Cafodd ffynonellau data a thystiolaeth a nodwyd drwy'r gweithgareddau casglu gwybodaeth a ddisgrifiwyd uchod eu coladu i Daflen Echdynnu Ymchwil (RES) a oedd yn cofnodi crynodeb o bob ffynhonnell ddata, gan gynnwys is-set o'r sector diwylliant a gynhwyswyd, y boblogaeth darged, dangosyddion a phynciau allweddol, amlder y casglu data a'r dyddiad cyhoeddi olaf. Cynhaliwyd asesiad lefel uchel o berthnasedd y ffynonellau data yn erbyn cwmpas y prosiect. Er enghraifft, fe wnaethom dynnu sylw at (i) cyhoeddiadau nad ydynt yn adrodd ar ganlyniadau sy'n benodol i Gymru ond sydd ond wedi'u cronni ar gyfer y DU gyfan neu ar gyfer Cymru a Lloegr, (ii) pan gaiff canlyniadau eu cronni yn ôl categorïau nad ydynt yn cyd-fynd yn berffaith â'r pum is-sector o ddiddordeb ar gyfer yr ymchwil hwn, a (iii) ffynonellau sydd y tu ôl i wal dâl yn gyfan gwbl neu'n rhannol (efallai na fydd unrhyw dystiolaeth y tu ôl i wal dâl yn cael ei dal yn y dadansoddiad yng Ngham 2 y prosiect os nad yw'n hygyrch ar gyfer yr ymchwil). At ei gilydd, nodwyd 39 o ffynonellau, a chafodd 13 ohonynt eu cynnwys yn y gwaith mapio data cychwynnol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r adran hon yn manylu ar ganfyddiadau Cam 1, yn dilyn gweithredu'r fethodoleg a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol.

**Canfyddiadau o'r cyfweliadau**

3.2 Canlyniad craidd y cyfweliadau a gynhaliwyd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol allweddol oedd nodi ffynonellau data a thystiolaeth am y sector diwylliant yng Nghymru. Buom yn trafod â'r cyfweleion pa ddata y mae eu hadrannau neu sefydliadau'r llywodraeth yn ei gasglu a/neu'n ei brynu, pa adroddiadau monitro (os o gwbl) y maent yn eu cynhyrchu, a pha brosiectau ymchwil (os o gwbl) sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd neu sydd wedi'u cynnal yn ddiweddar. Cynhwysir y data a'r dystiolaeth a nodwyd drwy'r cyfweliadau hyn sydd ar gael i'r cyhoedd (neu sydd wedi'u rhannu â ni gan y cyfweleion) yn y rhestr o ffynonellau data a thystiolaeth yn yr Atodiad.

3.3 Trwy'r cyfweliadau, casglwyd gwybodaeth hefyd am y prif flaenoriaethau polisi ym mhob is-sector diddordeb, yn ogystal â phynciau ymchwil allweddol a chwestiynau y byddai'r cyfweleion yn dymuno eu harchwilio, sy'n helpu i ddeall pa fylchau yw'r rhai mwyaf brys yn y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Rhoddir trosolwg o'r pwyntiau trafod allweddol yn y tabl isod.

| Thema | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| **Amgueddfeydd a chasgliadau** | **Blaenoriaethau polisi**:<br>• Creu amgueddfa bêl-droed i Gymru.<br>• Sicrhau bod hanes a diwylliant pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli.<br>• Cefnogi datblygiad amgueddfeydd lleol.<br>• Ehangu gweithlu'r amgueddfeydd lleol, gan sicrhau mwy o gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig ac amrywiaeth, hefyd drwy eu helpu i recriwtio gwirfoddolwyr.<br>• Gwella sgiliau digidol y gweithlu.<br>• Cynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymwelwyr.<br>• Ehangu'r casgliadau a sicrhau cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig ac amrywiaeth o fewn y casgliadau.<br>• Cefnogi a chyfrannu at gyfres o amcanion strategol cenedlaethol, megis gwella iechyd a llesiant ar draws y |

| Thema | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | boblogaeth, cynaliadwyedd, a datgarboneiddio, cefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a Chynllun Gweithredu LGBTQ+ Cymru.<br>**Pynciau ymchwil allweddol/cwestiynau i'w harchwilio:**<br>• Effaith ymweld ag amgueddfeydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn amgueddfeydd ar iechyd a llesiant.<br>• Enillion economaidd a chymdeithasol o fuddsoddi mewn amgueddfeydd.<br>• Effaith a risgiau sy'n gysylltiedig â chyllid cyfyngedig ar feysydd fel ehangu a chynnal casgliadau, a dimensiwn ac ansawdd y gweithlu.<br>• Cymharu perfformiad amgueddfeydd lleol Cymru â sectorau amgueddfeydd lleol y tu allan i Gymru. |
| **Llyfrgelloedd ac Archifau** | **Blaenoriaethau polisi:**<br>• Ar gyfer archifau, mae'r prif flaenoriaethau polisi yn ymwneud â datblygu'r gallu i storio a rheoli cynnwys digidol ac i ddarparu mynediad i ddefnyddwyr o bell.<br>• I lyfrgelloedd, gan eu bod ar fin gweithredu system rheoli llyfrgell ddigidol integredig ar gyfer holl lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, y brif flaenoriaeth polisi yw datblygu'r gallu i gasglu a dadansoddi'r data a gynhyrchir drwy'r system newydd.<br>**Pynciau ymchwil allweddol/cwestiynau i'w harchwilio:**<br>• Meincnodi gyda gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd ac archifau y tu allan i Gymru.<br>• Tueddiadau o ran galw ac anghenion defnyddwyr, a boddhad defnyddwyr.<br>• Statws casgliadau archifau yng Nghymru (beth mae archifau'n ei gasglu, pa gasgliadau sy'n cael eu catalogio, i ba raddau mae casgliadau'n cael eu digideiddio, pa mor hygyrch ydyn nhw, ac ati).<br>• Arferion da ac achosion busnes ar gyfer digideiddio llyfrgelloedd ac archifau. |
| **Treftadaeth** | **Blaenoriaethau polisi:**<br>• Gwella canlyniadau cymdeithasol (e.e., ymgysylltu â'r gymuned, amrywiaeth ymwelwyr a'r gweithlu, cynwysoldeb, ac ati).<br>• Cynaliadwyedd ariannol gweithrediadau treftadaeth.<br>• Cyfraniad safleoedd treftadaeth i economïau lleol a buddion economaidd ehangach ar lefel genedlaethol. |

| Thema | Prif bwyntiau trafod |
| --- | --- |
| | • Yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd (gan ystyried effaith gweithrediadau treftadaeth ar yr amgylchedd ac effaith newid hinsawdd ar gadwraeth treftadaeth).<br>**Pynciau ymchwil allweddol/cwestiynau i'w harchwilio:**<br>• Proffiliau ymwelwyr ar draws y gwahanol safleoedd treftadaeth a'r prif rwystrau i ymweld â safleoedd treftadaeth ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth.<br>• Effaith safleoedd treftadaeth ar economïau lleol.<br>• Manteision economaidd ehangach cadwraeth treftadaeth ar lefel genedlaethol.<br>• Esblygiad enwau lleoedd mewn perthynas â chadwraeth yr iaith Gymraeg.<br>• Effeithiau newid hinsawdd ar safleoedd treftadaeth.<br>• Cysylltiadau rhwng ymweliadau â safleoedd treftadaeth a llesiant.<br>• Sut y gall y dreftadaeth gefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru. |
| **Y Celfyddydau** | **Blaenoriaethau polisi:**<br>• Hyrwyddo creadigrwydd.<br>• Ehangu ymgysylltiad trwy gyrraedd y cymunedau hynny y mae'r celfyddydau wedi methu'n gyson ag ymgysylltu â nhw.<br>• Hyrwyddo'r Gymraeg drwy wneud y mwyaf o gyfleoedd i sefydliadau'r sector i ddysgu, defnyddio a rhannu'r Gymraeg a'i diwylliant.<br>• Cymryd perchnogaeth o'r argyfyngau hinsawdd a natur, trwy weithredu sy'n gynaliadwy yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn foesegol.<br>• Sicrhau bod llwybrau sy'n galluogi pobl o bob cefndir i ddatblygu creadigrwydd, sgiliau ac arweinyddiaeth.<br>• Hyrwyddo trawsnewid trwy achub ar gyfleoedd newydd, cymryd risgiau a bod yn ymatebol i newid.<br>**Prif bynciau ymchwil:**<br>• Digideiddio'r sefydliadau yn y sector a sgiliau digidol y gweithlu.<br>• Yn gyffredinol, sut i weithio tuag at y blaenoriaethau polisi. |
| **Datblygu digidol** | **Blaenoriaethau polisi:**<br>• Rhannu data a gwybodaeth ar draws sefydliadau yn y sector diwylliant. |

| Thema | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | • Asesu a gwella sgiliau digidol y gweithlu.<br>• Creu pwynt mynediad unigryw i gasgliadau digidol amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau, gan gynnwys cyfuno metadata.<br>• Cysoni protocolau ar gyfer digideiddio a storio asedau digidol ar draws sefydliadau yn y sector.<br>• Defnyddio cyfryngau digidol i hybu diwylliant Cymru ledled y byd.<br>• Casglu mwy o wybodaeth am lywodraethu data gan sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus i ddatblygu cynnwys digidol.<br>**Pynciau ymchwil allweddol/cwestiynau i'w harchwilio:**<br>• Beth yw'r prif fylchau o ran sgiliau digidol yn y gweithlu, a sut ddylai gweithlu'r sector diwylliant edrych yn y dyfodol?<br>• Sut gall digidol gefnogi datgarboneiddio?<br>• Sut beth fydd galw gan y gynulleidfa yn y dyfodol, a beth sydd ei angen i addasu'r arlwy diwylliannol? |

**Nodi ac asesu ffynonellau data**

3.4 Yn gyffredinol, nodwyd 39 o ffynonellau data a thystiolaeth, a chafodd 13 ohonynt eu cynnwys yn y gwaith mapio data cychwynnol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r adolygiad. Ceir rhestr o'r ffynonellau data hyn yn yr Atodiad.

3.5 Er gwaethaf y gwahaniaeth yn y ffynonellau data ychwanegol a ganfuwyd o gymharu â'r hyn a gynhwyswyd yn y gwaith mapio data cychwynnol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd yr olaf yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer yr adolygiad ac yn manylu ar nifer o ffynonellau data a fyddai'n arbennig o bwysig i lunwyr polisi.

3.6 Mae pedwar prif faes cwmpas a arweiniodd at nodi'r ffynonellau ychwanegol a adnabuwyd drwy'r adolygiad, yn ogystal â gwaith mapio cychwynnol Llywodraeth Cymru. Yn gyntaf, canolbwyntiodd y gwaith mapio data ar ffynonellau data a gynhyrchwyd gan lond llaw o sefydliadau, sef Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, CIPFA, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymdeithas Prif Atyniadau Ymwelwyr ac Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU (DCMS). Ehangodd yr adolygiad data y chwiliad y tu hwnt i'r sefydliadau hyn ac felly

roeddem yn gallu nodi data a gynhyrchwyd o feysydd eraill a allai fod yn llai adnabyddus.

3.7 Yn ail, nid oedd y mapio data cychwynnol yn cynnwys data ar y sector treftadaeth. Roedd y cyfweliadau yn arbennig o ddefnyddiol o ran nodi data a thystiolaeth berthnasol yn y maes hwn. Yn drydydd, roedd y cyfweliadau'n cefnogi nodi data sy'n gysylltiedig â meysydd diddordeb ychwanegol a chwestiynau ymchwil nad ydynt efallai wedi'u hystyried yn y mapio cychwynnol. Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid hefyd yn helpu i nodi ffynonellau data a allai fod yn llai adnabyddus ond a allai barhau i roi gwerth cynyddol i'r map data. Yn olaf, canfu'r adolygiad o'r mapio rai ffynonellau data y barnwyd nad oeddent yn berthnasol neu'n ddefnyddiol, gan nad yw'n cynnwys data gan drigolion Cymru na dadansoddiad o leoliadau Cymreig.

## 4. Casgliad o Gam 1

4.1 Mae ein canfyddiadau'n awgrymu bod tystiolaeth a data ar y sector diwylliant yng Nghymru yn bodoli; fodd bynnag, mae argaeledd ac ansawdd data yn amrywio ar draws pob un o'r is-sectorau diwylliant ac efallai na fyddant o reidrwydd yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd yn y dyfodol. Mae'r anghysondeb o ran argaeledd ac ansawdd tystiolaeth ar draws yr is-sectorau yn rhannol adlewyrchu gwahanol gylchoedd gwaith y sefydliadau casglu data perthnasol a chwmpas y gweithgareddau y maent yn eu goruchwylio. At hynny, weithiau mae diffyg dadgyfuno rhanbarthol mewn data ac ystadegau sy'n ymwneud â'r sector diwylliannol yn y DU, sy'n rhwystro arsylwi ar fetrigau sy'n benodol i Gymru. Mae hyn yn cyflwyno heriau o ran gallu llunwyr polisi i ddeall yn hawdd argaeledd y data a'r dystiolaeth sydd ar gael.

4.2 Fel y nodir isod, mae'r adolygiad yn nodi tri defnydd posibl o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Ddiwylliant newydd Cymru a sut mae hyn yn ysgogi argymhellion allweddol ar gyfer cwmpas Cam 2 yr adolygiad:

**Datblygu polisi a strategaeth**

4.3 Mae canfyddiadau Cam 1 yn amlygu pwysigrwydd tystiolaeth ar faint, cyfansoddiad ac effaith y sector diwylliant ar gyfer datblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru. Canfu'r cyfweliadau y byddai tystiolaeth o'r fath yn debygol o fod yn hollbwysig i helpu llunwyr polisi i lywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol ym mhob un o'r is-sectorau diwylliant, gyda rhai o'r meysydd hyn yn mynd trwy newid sylweddol a fydd yn gofyn am ddull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. O'r herwydd, bydd datblygu Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru yn gofyn am drosoli'r sylfaen dystiolaeth, a fydd ynddi'i hun yn gofyn am ddeall argaeledd tystiolaeth o'r fath. Mae hyn yn awgrymu **y dylai Cam 2 gynnwys mapio data yn erbyn blaenoriaethau polisi,** ar gyfer pob un o'r is-sectorau diwylliant, i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau ar sail tystiolaeth.

**Blaenoriaethau ymchwil yn y dyfodol**

4.4 Roedd y cyfweliadau hefyd yn awgrymu pwysigrwydd gallu nodi unrhyw fylchau neu gyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth, gan y bydd hyn yn pennu gweithgareddau

ymchwil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i gefnogi llunio polisïau yn y pen draw. Mae'n bwysig felly y **dylai Cam 2 gynnwys nodi bylchau data** a pha mor ymarferol yw mynd i'r afael â'r rhain gyda'r gweithgareddau casglu data presennol.

### Monitro a gwerthuso

4.5 Ar ddiwedd Cam 1, mae Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru yn cael ei datblygu. Er bod manylion y strategaeth yn cael eu pennu ar hyn o bryd, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynllun ar gyfer monitro a gwerthuso effaith y strategaeth fel rhan o'r adolygiad tystiolaeth o'r sector diwylliant. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw gynllun monitro a gwerthuso yn y dyfodol yn defnyddio data hysbys a fydd ar gael yn ddigonol ar gyfer gweithgareddau monitro a gwerthuso yn y dyfodol, yn ogystal â diffinio llwyddiant y Strategaeth Ddiwylliant newydd i Gymru. Felly, **dylai Cam 2 flaenoriaethu dangosyddion allweddol a pharhau i fapio'r rhain ar draws pob un o'r is-sectorau diwylliant**. Y dangosyddion hyn fydd y rhai a ystyrir fel y rhai pwysicaf ar gyfer llunio polisi a byddent yn debygol o gael eu cynnwys ym monitro a gwerthuso'r strategaeth.

## 5. Argymhellion ar gyfer Cam 2

5.1 Mae canfyddiadau Cam 1 yn cymell tri amcan Cam 2:

I. Cynnal adolygiad a mapio data a thystiolaeth yn erbyn pynciau allweddol o ddiddordeb i gefnogi llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

II. Nodi bylchau a chyfyngiadau allweddol yn y sylfaen dystiolaeth bresennol i gefnogi blaenoriaethu a chynllunio gweithgareddau ymchwil yn y dyfodol.

III. Darparu trosolwg ystadegol o'r sector diwylliant ac is-sectorau ar draws pynciau allweddol o ddiddordeb.

**Cwestiynau ymchwil arfaethedig**

5.2 Yn seiliedig ar yr amcanion a ddisgrifiwyd uchod, cynigir y ddau ganlyniad canlynol a chwestiynau ymchwil cysylltiedig ar gyfer Cam 2:

**5.3** ***Canlyniad 1: Mapio data yn erbyn dangosyddion blaenoriaeth a blaenoriaethau polisi***, sy’n ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

1. Ar gyfer pob is-sector diwylliant, pa fetrigau sydd ar gael ar gyfer y canlynol:

- Dangosyddion blaenoriaeth, er enghraifft:
    - Defnyddwyr / ymwelwyr / mynychwyr
    - Gweithlu
    - Sefydliadau
- Blaenoriaethau polisi, er enghraifft:
    - Effaith amgylcheddol a datgarboneiddio
    - Sgiliau digideiddio a digidol
    - Yr Iaith Gymraeg
    - Effeithiau ar lesiant
    - Cyfraniad i economïau lleol
    - Hyrwyddo amrywiaeth/cynhwysiant ac ymgysylltu a chyfranogiad grwpiau nodweddion gwarchodedig

- Cynrychiolaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Prawfesur cefn gwlad.

2. Pa fylchau sy'n bodoli? Pa ddangosyddion sydd heb eu mesur ar hyn o bryd?
3. Beth yw'r prif gyfyngiadau ar ffynonellau data a thystiolaeth bresennol?

Bydd angen blaenoriaethu'r union ddangosyddion (e.e. 'ymwelwyr') a metrigau cysylltiedig (e.e. 'nifer neu ganran yr ymwelwyr') yr ymchwiliwyd iddynt, a chytuno arnynt gyda Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r blaenoriaethau polisi.

5.4 ***Canlyniad 2: Dadansoddiad o ddata presennol***, yn seiliedig ar fetrigau wedi'u blaenoriaethu ac ystadegau o ddiddordeb. Gallai hyn gynnwys datblygu crynodeb ystadegol o'r sector diwylliant. Rydym yn rhagweld y bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi ystadegau allweddol fel y canlynol, yn amodol ar gytundeb gyda Llywodraeth Cymru ac argaeledd data.

- Nifer y defnyddwyr neu ymwelwyr yn y sector diwylliant, fesul is-sector, gan ddal demograffeg allweddol lle bo modd.
- Nifer y gweithwyr yn y sector diwylliant, fesul is-sector a gradd gweithiwr lle bo modd.
- Twf y sector diwylliant, er enghraifft yn ôl defnyddwyr a gweithwyr.
- Nifer a dosbarthiad daearyddol sefydliadau yn y sector
- Maint y sector diwylliant o ran gwerth ychwanegol crynswth, gwariant neu refeniw.

# 6. Atodiad: Ffynonellau data a thystiolaeth

| Rhif cyfeirnod mewnol | Teitl | Sefydliad | 5 prif maes diddordeb a gynhwyswyd | Y flwyddyn olaf (neu unig flwyddyn) a gynhwyswyd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Arolwg Ymwelwyr Cymru | Paratowyd gan Beaufort Research i Groeso Cymru | Amgueddfeydd<br>Treftadaeth | 2019 |
| 2 | Arolwg Ymwelwyr Cymru – Ffocws ar amgueddfeydd | Paratowyd gan Beaufort Research ar gyfer Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd LIC | Amgueddfeydd | 2019 |
| 3 | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Llywodraeth Cymru | Amgueddfeydd<br>Y Celfyddydau<br>Llyfrgelloedd<br>Archifau<br>Treftadaeth | 2018-19 |
| 4 | Sbotolau ar Amgueddfeydd | Llywodraeth Cymru | Amgueddfeydd | 2015 |
| 5 | Ystadegau Gwasanaethau Archifau | Cynhyrchwyd gan CIPFA ar gyfer Adran Ddiwylliant LIC (talwyd am danysgrifiad) | Archifau | 2017-18 |
| 6 | Ystadegau Llyfrgell Gyhoeddus | Cynhyrchwyd gan CIPFA ar gyfer Adran Ddiwylliant LIC (talwyd am danysgrifiad) | Llyfrgelloedd | 2019-20 |
| 7 | Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru | Llywodraeth Cymru | Llyfrgelloedd | 2019-20 |
| 8 | Arolwg Omnibws Cymru – Oedolion yn ymgysylltu â'r Celfyddydau | Cyngor Celfyddydau Cymru | Y Celfyddydau | 2020 |
| 9 | Arolwg Omnibws Plant | Cyngor Celfyddydau Cymru | Y Celfyddydau | 2019 |
| 10 | Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru | Y Celfyddydau | 2019-20 |
| 11 | Arolwg o Ymwelwyr ag Archifau'r DU (CIPFA) | Cymdeithas Archifau a Chofnodion (DU ac Iwerddon) | Archifau | 2018 |
| 12 | Arolygon Gwasanaethau Ymholi o Bell (CIFPA) | Cymdeithas Archifau a Chofnodion (DU ac Iwerddon) | Archifau | 2021 |
| 13 | Traciwr Adfer Atyniad ALVA | Cymdeithas Prif Atyniadau Ymwelwyr (ALVA) | Amgueddfeydd<br>Treftadaeth | 2021 |
| 14 | Amcangyfrifon Economaidd Sector DCMS | DCMS | Amgueddfeydd<br>Y Celfyddydau<br>Llyfrgelloedd<br>Archifau<br>Treftadaeth | 2022 |
| 15 | Amcangyfrifon Economaidd | DCMS | Y Celfyddydau | 2019-20 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | DCMS: Cyflogaeth, Diwydiannau Creadigol Cymru Cymru Greadigol, 2019 a 2020 | | | |
| 16 | Arolwg Ymwelwyr Tymor Brig Cadw | Cadw | Treftadaeth | 2022 |
| 17 | Rhwystrau i ymweld â safleoedd treftadaeth | Cadw | Treftadaeth | 2022 |
| 18 | Ymchwil Cymunedol Mynachlog Nedd | Cadw | Treftadaeth | 2023 |
| 19 | Arolwg Ymwelwyr yr Haf | Cadw | Treftadaeth | 2018 |
| 20 | Arolwg Ymwelwyr Tymor Ysgwydd | Cadw | Treftadaeth | 2018 |
| 21 | Boddhad Ymwelwyr ac Amser Trigo | Cadw | Treftadaeth | 2014 |
| 22 | Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru | Cadw | Treftadaeth | 2010 |
| 23 | Adroddiad Ehangu Ymgysylltiad | Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Amgueddfeydd Y Celfyddydau | 2021 |
| 24 | Adroddiad canfyddiadau ac argymhellion | Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Amgueddfeydd Y Celfyddydau | 2021 |
| 25 | Adroddiad Undeb Gwrth Hiliol Celfyddydau Cymru | Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Amgueddfeydd Y Celfyddydau | 2022 |
| 26 | Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Y Celfyddydau | 2020-21 |
| 27 | Adolygiad wedi'i deilwra o Lyfrgell Genedlaethol Cymru | Llywodraeth Cymru | Llyfrgelloedd | 2020 |
| 28 | Astudiaeth Effaith Economaidd a Phecyn Cymorth AIM (2019) | Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol | Amgueddfeydd | 2019 |
| 29 | Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol | Cymru Greadigol | Y Celfyddydau | 2022 |
| 30 | Data Darganfod Cynulleidfa | The Audience Agency | Amgueddfeydd Y Celfyddydau Treftadaeth | amherthnasol |
| 31 | Ceisio sicrwydd: Ciparolwg o amgueddfeydd | Cymdeithas Amgueddfeydd Annibynnol | Amgueddfeydd | 2022 |
| 32 | UK Heritage Pulse: Arolwg 1 | Cronfa Treftadaeth | Treftadaeth | 2022 |
| 33 | UK Heritage Pulse: Arolwg 2 | Cronfa Treftadaeth | Treftadaeth | 2022 |
| 34 | Gwaith Sgrin 2020: Sgiliau ac arloesedd yn y dyfodol ar gyfer y Sector Sgrin ym Mhrifddinas-Ranbarth | Prifysgol De Cymru a Clwstwr | Y Celfyddydau | 2020 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Caerdydd | | | |
| 35 | Arolwg Sgrin Cymru 2021 | Prifysgol De Cymru a Cymru Greadigol | Y Celfyddydau | 2021 |
| 36 | Maint a chyfansoddiad y diwydiannau creadigol yng Nghymru | Clwstwr | Y Celfyddydau | 2019 |
| 37 | Deall Cymdeithas - Prif Arolwg | Deall Cymdeithas | Amgueddfeydd<br>Y Celfyddydau<br>Llyfrgelloedd<br>Archifau<br>Treftadaeth | 2013-14 |
| 38 | Deall Cymdeithas - Ieuenctid | Deall Cymdeithas | Amgueddfeydd<br>Llyfrgelloedd<br>Treftadaeth<br>Y Celfyddydau | 2020-21 |
| 39 | Diwydiannau creadigol, diwylliannol a digidol | ONS | Amgueddfeydd<br>Y Celfyddydau<br>Llyfrgelloedd<br>Archifau<br>Treftadaeth | 2021 |

**Dolenni i'r ffynonellau**

1. Arolwg Ymwelwyr Cymru: 2019
2. Arolwg ymwelwyr Cymru 2019: ymwelwyr ag amgueddfeydd ac ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol
3. Arolwg Cenedlaethol Cymru: diwylliant a'r iaith Gymraeg
4. Spotlite ar amgueddfeydd 2016
5. CIPFA - Archive Services Statistics 2017/18 Actuals
6. CIPFA - Public Library Statistics 2020/21 Estimates and 2019/20 Actuals
7. Adroddiadau blynyddol y gwasanaeth llyfrgelloedd 2017 i 2018
8. Cyngor Celfyddydau Cymru - Arolygon Blynyddol
9. Cyngor Celfyddydau Cymru - Arolygon Blynyddol
10. Cyngor Celfyddydau Cymru - Arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru
11. Archives and Records Association - Sector Surveys and Reports
12. Archives and Records Association - Sector Surveys and Reports
13. Association of Leading Visitor Attractions (ALVA) - Resources
14. DCMS Sectors Economic Estimates
15. Ad hoc statistical analysis: 2022/23 Quarter 1
16. Arolwg Ymwelwyr Tymor Brig Cadw: 2022
17. Rhwystrau i ymweld â safleoedd treftadaeth: 2022
18. Ymchwil gymunedol Abaty Nedd: 2022
19. Ymchwil Cadw

20. Cadw - Ymchwil Ymwelwyr Eraill
21. Cadw - Ymchwil Ymwelwyr Eraill
22. Cadw - Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru
23. Adroddiad Ehangu Ymysylltiad - Richie Turner Associates
24. Recognition empowering people - Adroddiad canfyddiadau ac argymhellion
25. Adroddiad Welsh Arts Anti Racist Union
26. Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2020-2021
27. Adolygiad teilwredig o Lyfrgell Genedlaethol Cymru
28. AIM Report and Toolkit
29. Arolwg Diwydiant Cymru Greadigol: 2022
30. The Audience Agency
31. AIM - Seeking Certainty
32. Heritage Fund
33. Heritage Fund
34. Clwstwr - Gwaith Sgrin 2020
35. Screen Survey Wales 2021
36. Clwstwr - Y diweddaraf am yr adroddiad: Maint a chyfansoddiad y Diwydiannau Creadigol yng Nghymru yn 2019
37. Understanding Society
38. Understanding Society
39. ONS - Creative, cultural and digital industries